



Newsletter

Greener Aberystwyth Group

www.aber-gag.org.uk

No. 17 October 2015

Editor: Laurie Wright

Bumblebees in nestboxes



Bumblebees have been using one of the nestboxes which were put up in the town cemetery, the one on the left as you enter from Llanbadarn Road. They are Tree Bumblebees, which have been sighted in Britain since 2001, and are a welcome addition to our native bee population. In Spring, the newly-emerged queens leave the nestbox in search of males before hibernating for the winter months; the males can be seen hovering around the entrance to the nestbox waiting for them to emerge.

More information on this interesting type of bumblebee: <http://www.theguardian.com/environment/2014/aug/24/specieswatch-tree-bumblebee>.

Moths on the increase

An ongoing GAG survey of moths in the town cemetery has already found an encouraging increase in the number of moth species. A full report will be produced for the County Council at the end of the season.

The new site management regime for the cemetery is producing positive results for wildlife. Under it, certain areas are left unmown, whilst maintaining access to graves as requested by individuals. Moths are not the only insects to benefit: an increase in the numbers of grasshoppers has been noted.

Coed Aber trees lost



22 Oriental Planes which were planted near the Park and Ride car park earlier this year have since died or are in a poor state. The cause is believed to be the strong cold winds from the sea in May, which came at

the worst possible time, since the trees were coming into leaf, with the result that leaves were burnt by the wind. About 6 or 7 are expected to recover, and the others will be replaced.

The Council hope to plant the replacements before Christmas, so that the winter rains help them to settle in. By Spring, they should be able to withstand inclement weather.

Benefits of urban trees

Yet more research published recently in the *Guardian Weekly* shows the health benefits of trees. Toronto researchers found that people living in tree-lined streets reported health benefits equivalent to being seven years younger. US scientists report that fewer low-weight births occur where there is tree canopy. Torbay in Devon discovered that its trees (mostly ash) removed 50 tonnes of air pollution each year – the equivalent of taking 52,000 family cars off the road.

Unfortunately, there is a trend in many cities towards replacing large mature trees with dainty ornamental species. These require less maintenance (as cash-strapped local authorities are well aware) but the result is often “lollipop landscapes”, and the health benefits can be dramatically less. It can take as many as 60 new trees to replicate the leaf cover of one mature tree.

Problem trees near houses



Five Poplar trees and a Cherry tree near the Labyrinth at the back of Cambridge Terrace, Queen's Road, are to be felled by the county council because their size is causing concern. Felling is considered to be a better option than heavy pollarding in this case, especially since holm oaks are already growing underneath them.

GAG Annual General Meeting

The AGM will be held at 7:30 p.m. on **Wednesday 14 October** in the Octagon, St Paul's Church, Queen's Road. Guest speaker Andy Rowland will give a talk on “Aberystwyth and the Dyfi Biosphere.” All are welcome.

Cylchlythyr



Rhifyn 17 Hydref 2013

Golygydd: Laurie Wright

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach

www.aber-gag.org.uk

Cacwn mewn blychau nythu



Gwelwyd cacwn (cachgwn bwm, “*bumblebees*”) mewn blwch nythu ym mynwent y dref, yr un cyntaf ar y chwith wrth ddod mewn o Ffordd Llanbadarn. Cacwn Coed ydynt, a welwyd ym Mhrydain yn gyntaf yn 2001, ac sydd i'w croesawu. Yn y Gwanwyn, mae'r brenhinesau ifainc yn gadael y blwch nythu i chwilio am gacwn gwrywaidd cyn gaeafu; gwelir y rhai gwrywaidd yn hofran o gwmpas y blwch nythu yn disgwyl amdanynt.

Rhagor o wybodaeth am y cacwn diddorol yma:

<http://www.theguardian.com/environment/2014/aug/24/specieswatch-tree-bumblebee>.

Gwyfynod wedi cynyddu

Mae arolwg gan GAG o wyfynod (*moths*) ym mynwent y dref eisioes wedi darganfod cynnydd calonogol yn nifer y mathau o wyfynod. Cyflwynir adroddiad llawn i'r Cyngor Sir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r cynllun newydd am reoli'r fynwent yn llesol iawn i fywyd gwyllt. Yn y cynllun, nid yw'r glaswellt yn cael ei dorri mewn rhannau o'r fynwent, gan gadw llwybrau i'r beddau fel mae unigolion yn gofyn. Nid gwyfynod yn unig yw'r unig rai i gael budd: gwelwyd fod niferoedd sioncyn y gwair wedi cynyddu hefyd.

Coed Aber: colledion



Plannwyd 22 Plannwydden Ddwyreiniol ger y “Parcio a theithio” yn gynt eleni, ond maent wedi marw neu dirywio. Credir fod gwyntoedd o'r mor ym mis Mai oedd yn gryf ac oer wedi llosgu'r dail ifainc. Disgwylir y bydd

6 neu 7 yn gwella, a bydd coed newydd yn cael eu plannu yn lle'r lleill.

Mae'r Cyngor yn gobeithio plannu'r coed newydd cyn y nadolig, fel bod glaw yr gaeaf yn helpu'r gwreiddiau i sefydlu, a'u bod yn ddigon cryf erbyn y Gwanwyn i wrthsefyll tywydd garw.

Gwerth coed ein trefi

Dangosodd erthygl ddiweddar yn y *Guardian Weekly* fod rhagor o ymchwil wedi profi bod coed yn llesol i iechyd. Yn Toronto, adroddwyd fod gwell iechyd gan bobl sy'n byw mewn strydoedd lle mae coed, fel petasen nhw saith blynedd yn iau. Yn yr Unol Daleithiau, mae gwyddonwyr yn adrodd bod llai o enedigaethau o dan y pwysau iawn yn cael lle mae coed yn gorchuddio'r tir. Darganfu Torbay, Devon, fod eu coed (y mwyafrif yn goed ynn) yn cael gwared â 50 tunnell o lygredd yr awyr bob blwyddyn – sy'n gyfartal â thynnu 52,000 o geir teuluol oddi ar y ffordd.

Yn anffodus, mae llawer o drefi yn tueddu i roi coed bach addurnol yn lle coed mawr aeddfed. Mae llai o angen am waith cynnal a chadw (fel mae cynghorau lleol prin o arian yn gwybod) ond y canlyniad yn aml yw “lollipop landscapes”, ac mae'r lles i'r iechyd yn gallu bod yn llawer llai. Mae angen cymaint â 60 coeden newydd i gael yr un maint o ddail ag un goeden fawr aeddfed.

Coed yn agos i dai: problem



Bydd y Cyngor Sir yn torri Ceiriosen a phump Poplysen tu ôl i Cambridge Terrace, Morfa Mawr, oherwydd cwynion am eu maint. Ystyriant fod torri yn well na thocio yn yr achos yma, oherwydd bod derw bytholwyrdd eisioes yn tyfu tanynt.

Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol GAG

Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol am 7:30 y.h. **nos Fercher 14 Hydref** yn yr Octagon, Eglwys St Paul, Morfa Mawr. Bydd Andy Rowlands yn siarad am “Aberystwyth and the Dyfi Biosphere”. Croeso i bawb.